

ganolfannau Chasidiaeth (yn y 1930au roedd rhai miliynau o Chasidim yn nwyrain Ewrop) eu dinistrio bron yn llwyr yn ystod yr Holocost. Ym mha wlad bynnag maen nhw wedi bwrw gwreiddiau, maen nhw'n byw mewn cymunedau clos iawn, sydd fel rheol yn cau allan y byd allanol. Mae cymuned Chasidig sylweddol yn Stamford Hill, Gogledd Llundain. Ynghyd â'r Lithwaniaid Uniongred, maen nhw'n bodoli, er enghraifft, mewn rhannau o Fanceinion, Efrog Newydd ac yn ardal 'Meah Shearim' Jerwsalem. Mae cymuned Iddewig Gateshead (Newcastle) yn falch o arddel ei gwreiddiau yn Lithwania.

Ers blynnyddoedd bellach, mae grwpiau Tra-Uniongred wedi bod yn ymweld â threfi prifysgol yng Nghymru, fel Bangor, Aberystwyth a Chaerdydd yn ystod yr haf. Maen nhw'n aros yn neuaddau'r Brifysgol fel arfer, sy'n hwyluso'r trefniadau paratoi bwyd a llety sy'n ofynnol yn ôl y Torah.

Pan fydd papurau newydd neu'r teledu yn cyflwyno adroddiad am fater Iddewig, llun o Chasid sy'n cael ei ddangos bron yn ddiethriad (er nad yw Chasidim yn hoff o ffotograffau ohonyn nhw'u hunain, maen nhw'n gwneud llun trawiadol iawn!). Mae'r wisg ddu (sy'n deillio o gymdeithas ganoloesol gwlad Pwyl) a'r locsyn clust (er mwyn ufuddhau i Lefiticus 19: 27, 'Nid ydych i dorri'r gwallt ar ochr eich pennau, na thorri ynylon eich barf') yn dangos yn eglur mai Iddew yw hwn. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed wrth gyflwyno safbwynt cwbl groes i Chasidiaeth, fel pan ddangoswyd lluniau ohonyn nhw ar adeg sefydlu eruv yng ngogledd-orllewin Llundain (gweler pennod 12). O ran arferion anodd eu deall o'r tu allan, y cymunedau Tra-Uniongred sydd amlycaf, am y rheswm syml eu bod nhw'n ufuddhau mor llwyr i'r rheolau, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu oes arall. Mae eu rheolau caeth ynglyn â gweddusrwydd (sy'n deillio o'r Codau Cyfreithiol), er enghraifft, yn dweud na chaiff dyn fod ar ei ben ei hun gydag unrhyw fenyw ac eithrio'i wraig. Mae unrhyw fath o agosatrwydd cyhoeddus (fel dal dwylo) gyda'ch gwraig yn cael ei ystyried yn anweddus pan fydd pobl eraill yn bresennol. Mae hyd yn oed ysgwyd llaw gyda menyw arall yn anweddus hefyd. Gallai dyn Tra-Uniongred sy'n gwrthod ysgwyd llaw â menyw gael ei ystyried yn anfoesgar neu'n sarhaus gan unrhyw un sy'n anghyfarwydd â'u hufuddod i'r rheolau crefyddol, ond does dim byd personol ynglŷn â hyn. Fel yr eglurwyd uchod, dyna fyddai ei agwedd tuag at unrhyw fenyw ac eithrio'i wraig.

# 05 Iddewiaeth an-uniongred

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am ddatblygiad mudiad a oedd yn ceisio diwygio Iddewiaeth
- sut mae gwahaniaethau allweddol mewn cred yn cael eu hadlewyrchu yn y gwahanol rannau mae menywod yn eu chwarae
- am fudiadau an-Uniongred eraill: Ceidwadol a Rhyddfrydol.

## Iddewiaeth Ddiwygiedig a'i gwahaniaethau

Dydy hi ddim bob amser yn ddoeth diffinio rhywbeth – boed yn air, ymadrodd, safbwynt neu fudiad – drwy ddweud beth *nid* ydyw. Ond dyna'r ffordd orau o ddiffinio Iddewiaeth Ddiwygiedig, fel man cychwyn o leiaf. Yn mhennod gyntaf llyfr â'r is-deitl, *A Guide to Reform Judaism Today*, mae'r Rabbi Jonathan Romain yn dweud:

*Y nodwedd sy'n diffinio Iddewiaeth Ddiwygiedig yw ei hagwedd tuag at y Datguddiad ar Fynydd Sinai. Digwyddodd rhywbeth arbennig iawn yno, nid yn unig i Moses, ond i holl gymuned Israel*

(*Faith and Practice*, RSGB, 1991)

Ar ôl pwysleisio pwysigrwydd y cyfarnod a ddaeth i fod, meddai Romain:

*Cred yr Uniongred fod y llyfr sy'n disgrifio'r digwyddiad hwnnw wedi cael ei arddweud gan Dduw, a'i fod yn cynnwys union eiriau digyfnewid Duw. Credir fod ei gyfreithiau'n ddigyfnewid, a rhaid i benderfyniadau ynglŷn â sefyllfaoedd newydd ar unrhyw adeg yn y dyfodol ufuddhau iddo.*

Fel y gwelsom yn y bennod ddiwethaf, pobl eraill sy'n tueddu i ddefnyddio'r gair 'arddweud' (*dictate*) wrth ddisgrifio beth mae Iddewon Uniongred yn ei gredu. Nid y ffordd y cafodd y Torah ei dderbyn sydd o bwys iddyn nhw, ond yr argyhoeddiad fod y Torah, fel y rhoddwyd ef i Moses, wedi ei ysbrydoli'n uniongyrchol ac yn ddwyfol mewn modd y tu hwnt i brofiad dynol normal. Rhaid mesur pob penderfyniad wedi hynny yn erbyn yr egwyddorion sylfaenol sydd ynddo. Safbwynt y mudiad Diwygiedig, yng ngeiriau Romain, yw fod y Torah, 'wedi cael ei ysbrydoli gan Dduw ond wedi ei sgrifennu gan fodau dynol yn ôl eu dealltwriaeth nhw o ewyllys Duw'. Mae'n:

*'dystiolaeth o brofiad ffurfeiddiol... yn ffynhonnell barhaus, yn llawn darnau sy'n ysbrydoli a chanllawiau ymarferol...*

*Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn llyfr dynol... y gellir ei herio a'i adolygu, a gall rhannau ohono fynd yn amherthnasol gydag amser.*

## Dechrau'r Mudiad Diwygiedig yn yr Almaen

Yn ôl Romain, asgwrn y gynnen rhwng Uniongrededd a Diwygio yw'r canlynol: a gafodd y Torah ei roi i Moses ar fynydd Sinai neu dros gyfnod o amser i nifer o bobl, ac a yw cyfreithiau'r Torah yn orfodol am byth neu ai canllawiau ydynt a all fynd yn amherthnasol wrth i'r oes newid?

Dechreuodd Iddewiaeth Ddiwygiedig yng nghanolbarth Ewrop tua diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ymlyneg. Doedd dim bwriad sefydlu mudiad crefyddol newydd, ond datblygodd un wrth i gredoau ac arferion traddodiadol gael eu hailasesu. Roedd angen y fath ailasesu oherwydd y rhyddid deallusol a gwleidyddol newydd oedd wedi cael ei roi i bawb, yn cynnwys Iddewon. Roedd rhaid i Iddewon a oedd bellach yn rhydd ystyried beth oedd bod yn Iddewon a oedd hefyd yn ddinasyddion llawn yn eu gwahanol wledydd. Roedd yn rhaid iddynt ddiffinio'u hunaniaeth Iddewig yn erbyn cefndir crefyddau eraill a bywyd seciwlar. Dewisodd rhai Iddewon gymathu, sef peidio ag ymddwyn fel Iddewon o gwbl, ac er mwyn atal hynny a chynnig ffydd oedd yn cwmparu pob agwedd o fywyd a syniadau cyfoes, dechreuwyd ailwampio Iddewiaeth. Y person cyntaf i wneud hyn oedd Israel Jacobson yn yr Almaen, a geisiodd ddiweddar syniadau ac arfer. Y prif syniad oedd yr un uchod, sef mai dim ond gair Duw wedi ei ddehongli gan fodau dynol yw'r Torah. Gan fod bodau dynol yn gallu gwneud camgymeriadau, mae'n dilyn fod rhaid i bob cenhedlaeth bwyso a mesur cysyniadau o Dduw yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Er mwyn cadw Iddewiaeth yn gyfoes beunydd (sef nod Iddewiaeth rabbinaidd, meddai'r diwygwyr), ceir gwrthod arferion sydd heb lawer o bwrpas erbyn hyn. Yn ôl yr halachah, er enghraifft, chaiff dyn sy'n un o ddisgynyddion hen deuluoedd offeiriadol Israel gynt, *sef cohen* ('offeiriad') ddim priodi menyw sydd wedi ysgaru (*Lefiticus* 21: 7). Ym marn y mudiad Diwygiedig, gan nad ydy coheniaid mewn bywyd modern yn gweinyddu fel offeiriad erbyn hyn, dylid eu trin fel dynion Iddewig eraill o safbwynt pwy y cânt eu priodi. Mae'r Diwygwyr hefyd yn amau, wedi'r holl ganrifoedd er cwymp yr Ail Deml yn 70 OG, a oes unrhyw un sy'n fyw heddiw yn perthyn i'r llinach offeiriadol. Dydyn nhw ddim yn credu chwaith fod yr hen ffydd o rannu cymdeithas Israel yn Offeiriad, Lefiaid ac Israeliad yn ffordd briodol o fynegi Iddewiaeth mewn cymdeithas gyfoes. Maen nhw'n rhoi enghreifftiau sydd, yn eu barn nhw, yn annheg ac yn afresymegol. Nid mater o anwybyddu penderfyniadau halachaidd mo hyn, oherwydd mae'r mudiad Diwygiedig yn credu eu bod yn fan cychwyn pwysig, ond credir y gall cyfreithiau

ei bywyd fel cenedl ym Mhalesteima, a heddiw, yr unig beth sy'n ein rhwymo, yn ein barn ni, yw'r cyfreithiau moesol, a'r unig seremonïau yr ydym yn eu cynnal yw'r rhai sy'n dyrchafu ac yn sancteiddio ein bywydau... Yr ydym o'r farn fod pob un o gyfreithiau Moses a'r rabiniaid sydd yn rheoli bywyd, purdeb offeiriadol, a gwisg yn tarddu mewn oes ac o dan ddylanwad syniadau sy'n gwbl ddiethr i'n cyflur meddyliol ac ysbrydol ni heddiw... Mae ufuddhau i'r rhain yn yr oes hon yn tueddu i rwystro yn bytrach na bywyddo dyrchafiad ysbrydol modern... Nid ydym bellach yn ystyried ein bod yn genedl, ond yn gymuned grefyddol; gan hynny, nid ydym yn disgwyl naill ai dychwelyd i Balesteima, nac addoliad aberthol o dan feibion Aaron, nac adfer unrhyw gyfreithiau sy'n ymwneud â gwladuriaeth Iddewig.

Erbyn 1937, roedd datganiad newydd o'r 'Egwyddorion sy'n Ganllawiau i Iddewiaeth Ddiwygiedig' wedi cael ei lunio yn yr Unol Daleithau. O dan ddylanwad rhai Iddewon traddodiadol iawn a ddaeth o ddwyrain Ewrop yn y 1890au, teimlai llawer o Iddewon America fod y 'Pittsburgh Platform' wedi mynd yn rhy bell. Roedd y datganiad newydd, a gynhyrchwyd gan gyfarfod o rabiniaid Diwygiedig yn Columbus (y 'Columbus Platform') yn llawer mwy positif ei agwedd tuag at symbolau a seremonïau traddodiadol ac, yn bennaf oll, y mitzvot. Roedd hefyd yn dileu'r elyniaeth tuag at ymdrechion i sefydlu mamwlad i'r Iddewon ym Mhalesteima.

Dengys cyfarfod arall o rabiniaid Diwygiedig, yn San Francisco, fod y duedd o blaid adfer rhannau o litwrgi ac arfer y teimlid eu bod yn dal o werth, yn parhau. Cydnabyddir fod angen 'defnyddio'r Hebraeg, ynghyd â'r iaith frodorol, yn ein haddoli a'n hyfforddi'. Roedd cyfrifoldebau'n cynnwys:

*creu cartref Iddewig sy'n canolbwyntio ar y teulu...;  
astudio gydol oes; gweddio preifat ac addoli  
cyhoeddus; cadw'r Saboth a'r dyddiau gwyl.*

Roedd 'San Francisco Platform' 1976, sef 'Persbectif Canmlwyddiant Rabiniaid Diwygiedig America', yn ddogfen o bwys. Mae Iddewiaeth Ddiwygiedig yn America wedi bod â phwyllgor erioed a fyddai'n ateb cwestiynau ar sail yr halachah (sef Pwyllgor y Responsa). Mae datganiad 1976 yn dangos pwygrywydd hynny, ond hefyd y gwrthdaro rhyngddo ag agweddau mwy modern:

sy'n deillio o un cyfnod fod yn anaddas mewn cyfnod cwbl wahanol. Yn hytrach na cheisio eu moderneiddio, dylid eu hepgor yn llwyr. Mae'r mudiad Diwygiedig yn gweithredu'r egwyddor hon yn achos rhai o'r cyfreithiau defodol, fel y rhai sy'n ymwneud â phurdeb defodol. Credir y dylid ufuddhau i'r cyfreithiau moesol.

Credai rhai o sylfaenwyr eraill mudiad diwygio'r Almaen fod gwahaniaethu rhwng cyfreithiau gorfodol ac anorfodol yn gydnaws â thraddodiad, ac mae'r mudiad Diwygiedig yn dal i gredu hynny heddiw. Meddai Abraham Geiger (1810-1874), yn *Judaism and History*:

*Traddodiad yw'r pŵer datblygol sy'n parhau mewn  
Iddewiaeth fel asiant anweledig... Traddodiad yw'r  
enaid sy'n ysgogi Iddewiaeth...*

*Mae traddodiad, fel datguddiad, yn egni ysbrydol  
sydd wastad ar waith, pŵer uwch nad yw'n dod oddi  
urth ddyn, ond sy'n tarddu o'r Ysbryd Dwyfol...*

Aeth cyd-ddiwygiwr Geiger, Samuel Holdheim, i gyfeiriad llawer mwy radicalaidd, gan ei fod yn barod i roi'r gorau i'r holl mitzvot (dyletswyddau).

Ceisiodd Iddewiaeth Ddiwygiedig gynnar newid ffurfiau addoli cyhoeddus hefyd, gan gredu efallai y byddai gwasanaethau'n fwy deniadol i Iddewon ansicr pe baen nhw'n debycach i wasanaethau Cristnogol cyfoes. Felly, dechreuwyd gweddio yn yr Almaen yn lle'r Hebraeg a defnyddio cerddoriaeth organ a chorau cymysg. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys pregeth addysgol, cafodd pob cyfeiriad yn y litwrgi at aildechrau aberthu ei ddileu o'r llyfr gweddio traddodiadol, a chafodd yr holl wasanaeth ei wneud yn fwy urddasol. Er dechrau'r mudiad Diwygiedig, mae'r litwrgi wedi cael ei newid yn gyson, gyda rhai elfennau a hepgorwyd yn cael eu cynnwys eto yn ddiweddarach.

## Diwygio yn yr Unol Daleithiau

Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr adain Ddiwygiedig fwy radicalaidd oedd â'r oruchafiaeth, yn enwedig yn yr Unol Daleithau. Cafodd barn yr adain honno ei lleisio mewn cyfarfod o Rabiniaid Diwygiedig yn Pittsburgh ym 1885. Nid yw'r datganiad yma, y 'Pittsburgh Platform', yn gweld yr Iddewon mwyach fel 'cenedl sanctaidd', yn byw mewn ffordd gwbl wahanol i 'genhedloedd eraill':

*Rydym yn cydnabod fod cyfraith Moses yn ddull o  
byfforddi'r bobl Iddewig ar gyfer ei chenhabaeth yn ystod*

O fewn pob maes defodol Iddewig, mae Iddewon Diwygiedig yn gorfod ystyried gofynion y traddodiad, sut bynnag y canfyddir bynni, ac fel unigolion rhydd, dewis a chreu ar sail ymwyriad a gwybodaeth.

Aeth y mudiad Diwygiedig o nerth i nerth ymhlith Iddewon America. Teimlai mewnfudwyr o'r Almaen yn y bedwaredd ganrif ar byntheig fod bywyd ac agweddau'r 'Byd Newydd' yn cydfynd yn dda â'r 'Iddewiaeth Newydd'. Gallai rabbiniaid Diwygiedig o gefndiroedd yng ngorllewin Ewrop gymodi rhwng rhai mwy radicalaidd, fel Kaufmann Kohler, a oedd wedi ennill y dydd yn y cyfarfod yn Pittsburgh, a'r rheini a fynnai mai adnewyddu Iddewiaeth oedd ystyr Diwygio, nid torri cysylltiad. Y prif gymodwr oedd Isaac Mayer Wise a greodd brif sefydliadau'r mudiad Diwygiedig: Undeb Cynulleidfaoedd Hebreidd America ym 1873, Coleg yr Undeb Hebreidd, i hyfforddi rabiniaid, ym 1875, ac, yn yr un flwyddyn, cymdeithas rabinaidd. Yn fwy diweddar, mae rabiniaid ag athroniaeth Seionaidd glir (fel Stephen Wise, 1874-1949), rhai â gwybodaeth fanwl am y litwrgi traddodiadol (fel A.Z. Idelsohn, 1882-1938) a rhai hyddysg yn yr halachah (fel Solomon Freehof, 1882-1990) wedi ei gwneud hi'n haws cyfuno traddodiad a newid nag oedd hi yn nyddiau mwy amddiffynnol y mudiad Diwygiedig. Cafodd menywod statws cydradd a chafodd y fenyw gyntaf ei hordenio'n rabbi ym 1972. Ac eto, roedd y mudiad yn dal i ymdrech i ddarparu 'rhywbeth at ddant pawb'. Er enghraifft, cynigiwyd cor i arwain y canu fel posibilrwydd arall yn ogystal â chantor, nid yn lle cantor. Heddiw, mae 13 y cant o Iddewon America yn aelodau o'r mudiad Diwygiedig, felly America yw cartref y mwyafrif o'r miliwn a mwy o Iddewon Diwygiedig y byd.

## Diwygio ym Mhrydain

Ym Mhrydain, pethau ymarferol ddaeth gyntaf, ac ideoleg wedyn. Yn wir, dechreuodd y mudiad Diwygiedig ym Mhrydain ar ddamwain bron, ac aeth peth amser heibio cyn iddo symud i'r un cyfeiriad â'r mudiad yn yr Almaen. Cymerwyd y cam gyntaf gan rai o aelodau Bevis Marks, y synagog Seffardi hynaf ym Mhrydain, yn yr 'East End'. Ar ôl symud i fyw yng ngorllewin Llundain, roedden nhw am sefydlu synagog yno, ond roedd cymuned dwyrain Llundain yn gwrthwynebu, gan ofni colli cefnogaeth ariannol teuluoedd mwy cefnog gorllewin Llundain. Aeth rhai o'r aelodau yn eu blaen p'r un bynnag, gan adael Bevis Marks a ffurfio cynulleidfia annibynnol ym 1840. Ymunodd rhai teuluoedd Ashkenazi â nhw yn 'Synagog Iddewon Prydeinig

Gorllewin Llundain', ac agorodd y synagog ym 1842. Gan eu bod yn annibynnol, manteisiwyd ar y cyfle i wneud mân newidiadau yng ngwasanaeth y synagog. Cafodd llyfr gweddi (argraffiad cyntaf *Forms of Prayer* – gweler pennod 10) ei gyhoeddi ym 1841-2. Mae'r ffaith eu bod yn ymbalfalu'n ddiwinyddol yn amlwg yn natganiad eu gweinigod cyntaf, y Parchedig D.W. Marks mai dim ond i'r Torah ysgrifenedig roedd yn rhaid uffudhau ac nad oedd awdurdod gan y Torah llafar. Honnodd rhai rabiniaid Diwygiedig diweddarach fod rhannau o'r Beibl yn amherthnasol ond bod rhannau o'r llenyddiaeth rabinaidd yn barhaol. Tra bod cefnogwyr y mudiad Diwygiedig yn credu fod parhau i drafod yr halachah yn gryfder, gwêl ei wrthwynebwyr hynny fel dryswch. Parhau wnaeth y duedd tuag at y safbwynt mwy traddodiadol yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, yn enwedig ym Mhrydain lle mae'r mudiad Diwygiedig yn agosach at yr hyn a elwir yn Iddewiaeth Geidwadol yn America (gweler isod). Mae'n cynnwys rhyw 13 y cant o Iddewon sy'n aelod o synagog ym Mhrydain. (Mae 8 y cant yn perthyn i'r mudiad Rhyddfrydol, sef y mwyafrif radicalaidd o'r ddau brif grŵp an-Uniongred ym Mhrydain.) Maen nhw'n perthyn i Synagogau Diwygiedig Prydain Fawr (*Reform Synagogues of Great Britain*) neu'r RSGB, teitl presennol cymdeithas a ffurfiwyd ym 1941.

## Anghytundeb hollbwysig

Bydd penodau diweddarach y llyfr yma yn rhoi enghreifftiau penodol o wahaniaethau rhwng Iddewiaeth Uniongred a Diwygiedig. Mae arferion gwahanol mewn defodau tyfiant, deddfau bwyd, addysg, addoli, cadw'r Saboth a gwyliau eraill. Ond yn awr, fe edrychwn ar un maes neilltuol, sydd ag oblygiadau ymarferol hollbwysig, ac sy'n amlygu'r prif anghytundeb rhwng y Diwygwyr ac Uniongrededd. Dechreuodd y mudiad Diwygiedig fel ymgais i ddangos fod cred ac arfer Iddewig yn addas at yr oes fodern, ac un o newidiadau mwyafrif yr oes fodern yw swyddogaeth menywod mewn cymdeithas. Yn wahanol i newidiadau eraill yn nhrefn cymdeithas a ddigwyddodd ar ddechrau cyfnod y mudiad Diwygiedig, mae'r newid yma'n dal i ddigwydd. Prin y gellir dweud fod y mater wedi ei 'ddatrys'. Mae'r dadlau'n parhau, yn enwedig ymhlith nifer o grefyddau mawr y byd.

Prin y byddai hi'n fuddiol diffinio gwahanol enwadau Cristnogol ar sail eu barn am swyddogaeth menywod yn unig. Mae gwahanol agweddau hyd yn oed o fewn enwadau, yn

enwedig tuag at fenywod fel offeiriad yn Eglwys Loegr. Ni fynegir swyddogaeth menywod mewn credo crefyddol, er mai agweddau neilltuoel tuag at awdurdod yr ysgrythur a thuag at draddodiad sy'n sail i wahanol safbwyntiau Crismogol. Ond mae Iddewiaeth Ddiwygiedig yn gwneud safiad neilltuoel ar swyddogaeth menywod, ac yn gwneud cydraddoldeb yn egwyddor sylfaenol. Unwaith eto, yn y tudalennau cyntaf lle mae'n diffinio'r mudiad Diwygiedig, mae Romain yn dweud:

*... ystyrir menywod yn gydradd yn grefyddol â dynion, gyda'r un breintiau â'r un cyfrifoldebau, yn y synagog, yn y cartref, neu yn gyhoeddus. Mae Iddewiaeth Ddiwygiedig, gan hynny, yn ceisio cyflawni'r gorchwyl anodd o ddod ag amodau a chanfyddiadau modern o fewn terfynau bywyd Iddewig, fel y gellir bod yn grefyddol ac yn realistig ar yr un pryd.*

Mae'r union fodd y mae'r mudiad Diwygiedig yn ceisio gwneud hynny'n cynnig cymhariaeth ag Iddewiaeth Uniongred sydd yn taflu llawer iawn o oleuni ar y gwahaniaethau rhyngddynt.

## Safle menywod mewn Iddewiaeth

Er bod hwn yn faes astudiaeth ynddo'i hun, archwilir safle menywod mewn Iddewiaeth yn y fan hon i roi enghreifftiau o'r prif wahaniaethau rhwng an-Uniongrededd ac Uniongrededd. Mae'n amhosib bod yn ddiduedd ar y pwnc yma. Mae gan bob un ohonom – yn ddyn neu fenyw, hen neu ifanc, Iddew neu beidio, Uniongred neu Ddiwygiedig – syniadau am swyddogaeth menywod yn y gymuned. Wrth edrych yn benodol ar safle menywod o fewn y gymdeithas Iddewig, mae'r syniadau hynny'n lliwio'n barn. Heddiw, efallai y byddem am ddefnyddio'r gair 'rhywiaethol' (*sexist*) i ddisgrifio rhai mathau o ymddygiad neu farn. Er na allwn lwyri anwybyddu'n barn am beth sy'n rhywiaethol ac am amrywiaeth eang o ganfyddiadau ac ymatebion wrth ystyried safle menywod Iddewig, dylem hefyd geisio deall safbwyntiau'r gwahanol grwpiau crefyddol. Gan geisio peidio â dychanu'r 'Iddewes nodweddiadol' (fel y gwna llawer o ddramâu a hysbysebion teledu), efallai y gallwn gynnig profil o Iddewes Uniongred, Iddewes Dra-Uniongred, ac Iddewes Ddiwygiedig ym Mhrydain.

## Tair 'Iddewes nodweddiadol'

Mae Mrs Canol (y-ffordd) Uniongred yn byw ym Manceinion. Mae'n briod ac yn debyg o aros yn briod. Mae ganddi ddau o blant sy'n mynd i ysgolion gwladol lleol. Mae'n danfon y plant i Ysgol Iddewig ar y Sul ond dydy hi ddim yn mynychu'r synagog yn gyson. Mae'n dathlu'r Flwyddyn Newydd Iddewig a Dydd y Cymod yn y synagog ac yn mynd yno pan fydd aelodau o'i theulu agos neu estynedig yn chwarae rhan ar achlysur arbennig. Yn y synagog, mae'n eistedd yn oriel y menywod ac oddi yno mae'n gallu gweld y dynion yn arwain y gwasanaeth a'r gweddïau ac, ar fore'r Saboth a dyddïau gwyl, y darlleniad o'r Torah. Mae ei synagog yn perthyn i'r Synagogau Unedig ac mae rhai o'r menywod eraill yno yn mynd i'r synagog yn rheolaidd. Dim ond cig kosher mae'n ei goginio gartref, ond pan fydd hi'n bwyta allan gyda ffrindiau an-Iddewig, dydy hi ddim yn poeni am y rheolau bwyd. Mae'n dathlu'r Pasg Iddewig â phryd o fwyd bob blwyddyn. Mae'n mynd allan i weithio, yn byw bywyd cymdeithasol prysur, ac mae'n gweithio dros elusen leol. Mae bod yn Iddewes yn bwysig iddi ac mae'n gobeithio y bydd ei phlant yn priodi partneriaid Iddewig fel y gwnaeth hithau. Byddai'n anodd iawn iddi dderbyn gwraig an-Iddewig i'w mab, hyd yn oed pe bai bai'n ei hoffi fel person. Oni bai fod y ferch-yng-nghyfraith yn troi'n Iddewes Uniongred (ac mae tröedigaeth yn brosesfaith a blinderus) fyddai'r wyrion ddim yn cael eu cyfrif yn Iddewon.

Mae Mrs Tra-Uniongred yn byw yn Stamford Hill yn Llundain, ac mae ganddi deulu mawr fel pob un bron o'i chymudogion o Iddewon. Yn ei barn hi, bod yn briod a chael plant yw ei swyddogaeth bwysicaf o bell ffordd, er ei bod yn mynd allan i weithio. Cafodd addysg Iddewig lawn-amser, ac mae'n danfon y plant i ysgol Iddewig. Mae'n gweddïo ac yn astudio'n gyson, yn ufuddhau'n fanwl i'r deddfau bwyd, ac yn cadw'r dyddïau gwyl. Mae'n cadw'r rheolau purdeb teuluol sy'n golygu dim cyfathrach rywiol tra bod ei misglwyf arni nac am wythnos wedyn, cyn ymdrochi mewn baddon defodol. Mae'n gorchuddio'i gwallt ond pan fydd ar ei phen ei hun gyda'i gwr. Dydy hi ddim wir yn poeni y bydd un o'i phlant yn 'priodi allan' am nad ydyn nhw'n cwrdd yn gymdeithasol â braidd neb ond Iddewon. Mae'r mab hynaf, er enghraifft, yn gweithio i gwmni sy'n cyflogi Iddewon Tra-Uniongred yn bennaf.

Mae Mrs Diwygiedig yn byw yng nghyffiniau Caerdydd. Mae ganddi ddau blentyn sy'n mynd i ysgol wladol. Mae'n byw dipyn o ffordd o'r synagog ond mae wedi dechrau mynd yn fwy cyson

wrth i'r ferch hynaf ddechrau ymddiddori mwy. Does dim llawer o ddiddordeb gan y ferch ieuengaf ac mae ei ffrindiau bron i gyd yn an-Iddewon. Mae'n edrych yn debyg y bydd un o'r rheini'n dod yn bartner iddi. Byddai'n well ganddi i'w merch beidio â 'phriodi allan', er bod ei chwaer ei hun wedi gwneud, er gofid mawr i'w mam. Mae'n cadw nos Wener ar gyfer pryd teuluo arbennig ac yn ymweld â'i pherthnasau Iddewig yn Abertawe ar gyfer y Pasg Iddewig a'r Flwyddyn Newydd Iddewig. Mae ei mam yn perthyn i synagog Uniongred, ond mae Mrs Diwygiedig yn cael gwasanaethau ei synagog ei hun yn fwy ystyrlon. Yno, mae llawer o'r gweddïau yn Saesneg yn hytrach na Hebraeg, ac mae'n cytuno â'r modd mae'r menywod yn ei synagog hi yn cymryd rhan yn y darlenniadau a'r gweddïo. Mae hyd yn oed sôn y bydd y rabbi nesaf yn fenyw.

Ni ddylid mynd â'r math yma o gyflwyniad poblogaidd yn rhy bell, ond mae'n taflu goleuni ar y prif wahaniaethau: statws, sef materion yn ymwneud â geni, tröedigaeth, priodas, ac ysgariad; addoli cyhoeddus, sef darllen y Torah ac adrodd (neu ganu) y gweddïau; a bywyd teuluo, sef magu teulu, addysg, a chyflogaeth. Trafodir llawer o'r rhain yn benodol yn nes ymlaen yn y llyfr yma. Er enghraifft, bydd yn well ystyried materion yn ymwneud ag addoli cyhoeddus, fel iaith gweddïau, materion y ar Weddïo a'r Synagog. Mae cwestiynau am burdeb defodol a rhan y Llysoedd Iddewig mewn penderfynu pwy sy'n Iddew yn codi'n fwy naturiol yn y benod ar Briodas. Ond dylid codi mifer o bwyntiau sy'n gysylltiedig â'i gilydd yn y fan hon.

## Menywod yn darllen y Torah

Nid dim ond o fewn Iddewaeth an-Uniongred y bu brwydr dros gydraddoldeb rhywiol wrth reswm. Mae'r cwestiwn a all menyw fod yn rabbi dan ystyriaeth gan rai cynulleidfaoedd neo-Uniongred, yn enwedig yn UDA. Bydd yr ateb yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffordd mae pobl yn gweld swydd rabbi heddiw: penderfynu ar gyfreithiau Iddewig, bod yn athro ac yn arweinydd y gymuned neu gyflawni gorchwylion swyddog crefyddol? Mae'r cwestiwn a all swyddogaeth rabinaidd i fenyw fod yn gymharus â'r halachah yn dal i gael ei archwilio. Yn y cyfamser, yn America a Phrydain, ceir grwpiau bychain o fenywod sydd am ufuddhau i ofynion yr halachah ond sy'n dal i gael y gwasanaeth Uniongred cwbl wrywaidd yn anfodddhaol. Gan hynny, maen nhw wedi sefydlu gwasanaethau i fenywod yn unig. Cododd anhawster neilltuol ym Mhrydain pan ataliodd Llys y Prif Rabbi ddau wasanaeth a oedd wedi cael eu

cymradwyo gan Rabbi Uniongred yn ei synagog yng ngogledd-orllewin Llundain. Yr anhawster oedd fod y menywod am ddarllen o'r sefer *Torah* (sgrôl y Torah). Mae'n rhaid cael cworwm yn bresennol ar gyfer y fath ddarlleniad cyhoeddus, a'i fendithion cysylltiedig, a'r cworwm hwnnw mewn Uniongrededd yw deg dyn. Roedd y cwbl yn fêl ar fysedd y cyfryngau, fel mae unrhyw fath o ffræ, yn enwedig ymhlith pobl gryfddol. Pennawd yr *Independent* ar 25 Tachwedd 1992 oedd: '*Women-only worship splits Orthodox Jews*' ac roedd yn dyfynnu rabbi arall oedd yn cefnogi'r gwaharddiad, a fynnai fod a wnelo'r holl beth fwy â ffeministiaeth nag angerdd crefyddol, a'i fod felly i'w ystyried yn beth amheus. Yn anfodus, wnaeth yr adroddiadau papur-newydd ddim egluro mai'r broblem oedd y sefer Torah yn yr achos yma, gan greu'r argraff ymhlith darllenwyr cyffredin nad oedd menywod yn cael cynnal eu cyrddau gweddï eu hunain. Dydy hynny ddim yn wir, oherwydd mewn athrofydd Tra-Uniongred, cynhelir cyrddau gweddï ar gyfer menywod yn unig.

Mae cyrddau o'r fath yn rhan o'r drefn ym Mhrydain erbyn hyn, gyda'r rhai yn y synagogau sydd dan ofal y Prif Rabbi yn ufuddhau'n llwyr i'r halachah drwy hepgor yr ychydig elfennau o'r litwrgi lle byddai'n rhaid cael cworwm. Mewn rhai canolfannau yn America, mae menywod yn cael darllen o'r Torah, ond mae diffyg un awdurdod canolog i Uniongrededd yn America yn ei gwneud hi'n haws i rabiniaid unigol ganiatáu camau newydd nag ym Mhrydain. Mae gwahaniaeth barn ymhlith Iddewon Uniongred parthed a yw rhai o'r materion hyn, fel menywod yn unig yn darllen y sefer Torah, ac hyd yn oed menywod yn arwain y weddi yn gyhoeddus, wedi eu seilio'n gadarn ar yr halachah neu ddim ond yn fater o arfer.

Un datblygiad ym Mhrydain yw'r 'Fforwm Menywod Iddewig', fforwm lle gall menywod Iddewig o bob lliw a llun siarad â'i gilydd. Fel y dywedodd un o'i aelodau Diwygiedig, Rabbi Sheila Shulman, pan sefydlwyd y rhywydwaith ym 1993: 'fe ddaw newid os bydd menywod yn dechrau dymuno newid go iawn' ond fe ychwanegodd: 'Wn i ddim pa mor hyblyg y gall Iddewiaeth Uniongred fod.' Amser a ddengys a yw grwpiau gweddï menywod yn gam gwag peryglus a allai arwain, yn eironig ddigon, at addoli cwbl ar wahân, neu fod yn gyfrwng ysbrydoliaeth ysbrydol gyffredinol. Mae'r anfodlondeb ymhlith menywod Iddewig Uniongred yn sicr wedi denu sylw'r Prif Rabbi Prydeinig, wrth iddo ystyried yr arolwg a gomisynnodd pan ddaeth i'r swydd ac a gyhoeddwyd ar ffurf adroddiad ym

gallu arwain pobl eraill sy'n cyflawni eu dyletswydd. Yn ôl egwyddor y Talmud, dim ond person sydd dan ddyletswydd i gyflawni mitzvah a all berfformio'r mitzvah hwnnw ar ran rhywun arall (Berachot 20b). Mae rhai'n dweud fod y cyfreithiau gwyleidd-dra hefyd yn rheswm pam na ddylai menywod arwain y weddi. Y gred yw y gallai llais ac ymddangosiad menyw dynnu sylw dyn oddi wrth ei weddi. Gofal am 'urddas y gymuned' (Megillah 23a) yw'r rheswm hefyd dros beidio â gadael i fenywod ddarllen o sgrôl y Torah – hyd yn oed pan fydd minyan yn bresennol – er ei bod yn ddiddorol nodi fod yr un darn yma o'r Talmud yn eiggwneud hi'n glir fod menyw yn gymwys i ddarllen. Felly, mae'n amhosib i fenyw fod yn rabbi neu'n gantor ar hyn o bryd o dan reolau Iddewiaeth Uniongred. O'r safbwynt an-Uniongred, mae amgylchiadau newydd yn golygu fod rhaid rhoi'r gorau i arferion neu gyfreithiau sydd wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn cymdeithas batriarchaidd hynafol. Mae gan bob synagog Ddiwygiedig yr hawl i benderfynu ar ei harfer ei hun. Mewn llawer o'r rhain, ond nid pob un, o bell ffordd, mae menywod yn arwain y weddi ac yn darllen o'r Torah. Mae menywod yn cyfrif ar gyfer minyan (ond dydy minyan ddim yn hanfodol mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig) a'u dewis nhw yw gwisgo siôl weddio neu beidio, yn union fel dynion Diwygiedig. (Ond mae disgwyl i ddynion Diwygiedig wisgo siôl weddio, ac mae rhai'n dadlau, os yw menywod yn cael eu hystyried yn gydradd, y dylai hwythau eu gwisgo hefyd.) Does dim balconi neu fan arbenig lle bydd menywod yn eistedd ar wahân i'r dynion. Er 1975 ym Mhrydain, mae menyw wedi gallu bod yn rabbi, er bod ofnau ar y dechrau y byddai dadlau o fewn synagogau unigol ynglŷn â hyn.

Mae Iddewon Diwygiedig (a rhai Iddewon Uniongred) yn amau hefyd a ydy hi'n wir na chái menywod chwarae unrhyw ran mewn addoli cyhoeddus yng nghyfnod yr Ail Deml. Yn sicr, doedden nhw ddim yn cael gwneud yn y Deml ei hun. Mae'n amlwg nad oedd menywod yn offeiriaid. Yn wir, doedden nhw ddim yn cael mynd ar gyfyl y lle roedd yr offeiriaid yn offrymu'r aberth, gan orfod aros mewn cwrw allanol, y tu hwnt i gwrw'r dynion a chwrt yr offeiriaid. Ond mae tystiolaeth fod menywod yn cael eu trin yn llawer mwy cydradd yn y synagog nag yn ddiweddarach, pan gawsant eu gorfodi i eistedd ar wahân i'r dynion, a'u bod yn chwarae mwy o ran yn y gwasanaeth. Yn ôl Hyam Maccoby: 'Dim ond wrth i bobl fynd yn fwy cul a phoeni mwy am wedduswydd y newidiodd pethau yn y synagog, fel yn yr eglwys Cristnogol...' (*Judaism in the First Century*, Gwasg Sheldon, 1989). Mae Stefan Reif, wrth archwilio gweddïau

1994. Mynegodd llawer eu beirniadaeth o bethau fel y pwyslais ar y teulu sydd, medden nhw, yn annheg ar fenywod sengl, rhieni sengl a gweddwon; y ffaith fod rhan menywod ym mywyd y synagog yn gyfyngedig, i raddau helaeth, i wneud bwyd; a'r ffaith fod menyw Uniongred yn cael ei hystyried yn fenyw briod o hyd os bydd ei gŵr yn gwrthod ysgariad crefyddol iddi, hyd yn oed os bydd hithau wedi cael ysgariad sifil (gweler pennod 9).

## Eithrio rhag gorfod cyflawni mitzvot positif ar adegau penodol

Mae'r cwestiwn a all menywod gyfrif mewn cworwm neu arwain y weddi yn faes arall lle nad yw'n glir ai defod ac arfer neu halachah sy'n rhwystr i newid. Er fod y Beibl yn cyflwyno menywod cryf fel Miriam, Deborah, ac Esther, roedd cymdeithas y Beibl yn amlwg yn un batriarchaidd. Cafodd y fenyw ei chreu i fod yn gynorthwydd i'r dyn ac roedd hi i fod i ufuddhau iddo (Genesis 3: 16). Does dim rheolau'n cael eu rhoi, heb sôn am eu diffinio, ond erbyn cyfnod dechrau trafod y Torah, roedd pobl yn cymryd yn ganiataol mai prif le'r fenyw oedd magu teulu, nid gweithredu'n gyhoeddus. Doedd dim disgwyl iddi hi wneud dim oedd yn ymyrryd â'i chyfrifoldeb fel mam. Oherwydd hynny, roedd wedi ei hesgusodi rhag gorfod cyflawni'r mitzvot (dyletswyddau) positif ar adegau penodol o'r dydd mewn man cyhoeddus. Roedd mitzvot gwyliau neilltuol y gellid eu cyflawni ar yr aelwyd (fel ymryddio ar Ddydd y Cymod a bwyta bara croyw dros y Pasg Iddewig) yn orfodol ar fenywod, a'r holl mitzvot negyddol (Kiddushin 1: 7). Y prif mitzvah positif nad oedd menywod yn gorfod ei gyflawni oedd y dyletswydd i weddio gyda'r nos, yn y bore ac yn y prynhawn. Er y gallai dyn weddio gartref, roedd yn well gweddio gyda *minyan* (cworwm), yr uned gymunedol leiaf. (Mynnai'r rabbiniaid mai ystyr y geiriau 'Yn amllder pobl y mae anrhydedd brenin' (Diarhebbion 14: 28) oedd mai po fwyaf o bobl oedd wedi ymgynnull i weddio, mwyaf oll o fawl oedd yn cael ei roi i Dduw.) Deg dyn dros 13 oedd oedd yn ffurfio minyan (Berachot 21b). Felly, roedd ymuno yn y cwrdd gweddio cyhoeddus yn ddyletswydd ar ddynion, gan nad oedd ganddynt gyfrifoldebau ar yr aelwyd i'w rhwystro. Roedd dynion yn gorfod gwisgo dillad arbennig hefyd ar adegau gweddio penodol, ond nid menywod (Kiddushin 34a).

Mae'r rheolau hyn yn dal mewn grym mewn synagogau Uniongred. Caiff menyw weddio yn y synagog ar adegau penodol, ond does dim rhaid iddi. Am nad oes rhaid iddi, nid yw hi'n cyfrif mewn minyan o'r rhai sydd dan ddyletswydd, nac yn

Hebreaidd (gweler pennod 10) yn crybwyll testunau canoloesol sy'n awgrymu y gallai menywod ddewis cyflawni mitzvot nad oedd yn orfodol arny'n nhw (fel gwisgo eitemau penodol wrth weddio), cyfrif mewn minyan, a nid yn unig darllen o'r Torah, ond adrodd y fendith hefyd.

### Swyddogaeth gyhoeddus menywod

Efallai bod Uniongrededd yn ymddangos yn 'rhywiaethol' i anghredinwyr yr oes hon, ond yn wreiddiol, doedd gwahaniaethu rhwng swyddogaeth gyhoeddus y dyn a swyddogaeth breifat y fenyw – dwy swyddogaeth grefyddol – ddim yn golygu awgrymu fod y fenyw'n israddol. Nid dadl ynglŷn â hawl menyw i fynd allan i weithio yw hon chwaith. Mae'r fenyw Dra-Uniongred nodweddiadol, fel y gwelsom, yn dewis mynd allan i weithio er nad oes rhaid iddi wneud (ac ni fyddai'n debyg o wneud tra bod y plant yn fach). Dylid cofio hefyd fod traddodiad balch yn bodoli ers yr oes rabbinaidd mai'r fenyw sy'n ennill cyflog er mwyn i'r dyn allu astudio. Craidd y mater yw pwyslais yr Iddewon ar briodas a chenhedlu plant. Os yw'r rhain yn ddyletswyddau rabbinaidd, yna dyma'r swyddogaeth bwysicaf i fenyw. Ond os cychwynnir o fan cwbl wahanol, sef bod dynion a menywod yn gallu cyflawni nid yn unig swyddogaethau crefyddol cydradd ond yr *un* swyddogaethau crefyddol, yna mae'r safbwynt Uniongred yn gyfeiliornus.

Y rhai sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd yw menywod Uniongred sy'n parchu'r halachah a'r hen arferion ('y ffordd roedd eu rhieni'n gwneud pethau') ond sy'n methu cymryd rhan ym mywyd cyhoeddus y synagog – a fyddai, yn eu tyb nhw, yn ychwanegu at eu swyddogaeth breifat, nid yn amharu ar hynny. Dydyn nhw ddim yn fodlon bellach ar y ddadl fod swyddogaeth grefyddol y fenyw mewn Iddewiaeth yn fwy, o bosib, na swyddogaeth grefyddol y dyn am mai yn y cartref mae gwerthoedd Iddewiaeth yn cael eu trosglwyddo ac yno mae llawer o'r addoli yn digwydd. Mae hon yn broblem wirioneddol, a nid dim ond i fenywod ar rai pwyntiau allweddol. Ei hanfod yw'r union problem o amser a blaenoriaethau roedd yr hen rabbiniaid efallai wedi ei chanfod, a meddwl eu bod wedi ei datrys drwy eithrio menywod rhag gorfod ufuddhau i mitzvot ynghlwm wrth amserau neilltuol. Os mai'r cartref yw ffynhonnell hollbwysig dysg Iddewig, yna a yw hunaniaeth Iddewig ei hun dan fygythiad os bydd menywod yn derbyn cyfrifoldebau cyhoeddus eraill? Mae rhai pobl yn credu hynny. Fel Blu Greenburg sy'n cydnabod y gwahaniaeth rhwng safle menywod â phlant ifanc a rhai sydd heb blant:

Bydd parhau i eithrio mamau â phlant ifanc . . . yn sicrhau nifer o bethau: o safbwynt yr halachah, bydd yn fwy cyson â'r gorffennol a bydd yn tawelu ofnau a fynegir yn aml y byddai tephilah (gweddio) yn ymyrryd â gorchwylion teuluol. Yn bwysicach, bydd yn troi'r eithriad pendant ar sail rhyw o fod yn rhywbeth negyddol i fenywod, fel y mae ar hyn o bryd, yn rhywbeth mwy positif. Bydd yn ddatganiad cynnil, ond nerthol, ynglŷn â sancteiddrwydd magu teulu a all, am ychydig o flynyddoedd hollbwysig, gael y flaenoriaeth dros gyflawni'r mitzvah i weddio.

(On Women and Judaism, Jewish Publication Society of America, 1981).

Meddai H.H. Donin:

*Y fenyw, fel arfer, sy'n gyfrifol am nawws ysbrydol yr aelwyd. Y fam sydd, gan amlaf, yn gorfod ateb cwestiynau beunyddiol ei phlant. Maint ffydd y fam, cryfder ei gwerthoedd a'i chred sy'n chwarae'r rhan bwysicaf mewn ffurfio cymeriad ysbrydol y genhedlaeth nesaf.*

(To Raise A Jewish Child, Basic Books, 1977)

Gallai'r paragraff diwethaf, fodd bynnag, arwain eraill at gasgliad cwbl wahanol. Mae'r mudiad Diwygiedig yn credu mai'r ateb yw caniatáu i bob menyw unigol benderfynu beth yw'r ffordd orau o atgyfnerthu ei ffydd, a ffydd ei theulu os oes ganddi un.

## Iddewiaeth Geidwadol

### Cefnu ar Ddiwygio

Mae Iddewiaeth Geidwadol yn enghraifft o ba mor anodd yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gofynion traddodiad a moderniaeth, yn enwedig yn ei barn ar safle menywod yn y synagog. Gellir dweud fod Iddewiaeth Geidwadol yn cynnwys elfennau Uniongred a Diwygiedig, gan gefnogi'r safbwynt Uniongred ar ufuddhau i'r halachah a'r farn Ddiwygiedig ar bwysigrwydd ysgolheictod beirniadol a chred. Dechreuodd y mudiad drwy ddatgysylltu â'r mudiad Diwygiedig oedd yn ymfurfio yn yr Almaen pan fynodd y Rabbi Zachariais Frankel ym 1845 y dylai'r litwrgi fod mewn Hebraeg. Ym 1854 aeth Frankel yn brifathro cyntaf Athrofa Ddiwinyddol Iddewig

y llyfr gweddi newydd yn ei fynegi, ond bu Ceidwadaeth yn America yn y 1980au wrthi'n ailasesu swyddogaeth menywod, ac oherwydd penderfyniad 1983 i hyfforddi rabbiniaid benywaidd yn yr Athrofa Ddiwinyddol Iddewig, a'u hordeinio wedi hynny, cefnodd lleiafrif mwy traddodiadol ar y mudiad.

Bu tyndra tebyg ym Mhrydain yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif. Yr enw ar fudiad y 'traddodiadwyr' o Geidwadwyr yn UDA ac yn Israel yw *Masorti* ('traddodiad'). Mae gan fudiad y Masorti wyth cynulleidfa ym Mhrydain erbyn hyn (a nifer o gymunedau, er enghraifft, yn Leeds), ond roedd sefydlu'r cyntaf o'r rhain yn bwnc llosg. Roedd y gwrthdaro bryd hynny – a heddiw – yn un diwinyddol (sy'n ategu pwysigrwydd y gwahaniaethau mewn cred rhwng Uniongrededd a phob grŵp Iddewig arall). Union awdurdod y Torah ysgrifenedig oedd asgwrn y gynnen. Cafodd y Rabbi Louis Jacobs ei atal rhag mynd yn brifathro Coleg yr Iddewon (y coleg rabinaidd Uniongred yn Llundain), lle'r oedd eisoes yn ddarlithydd, a'i wahardd rhag bod yn rabbi gyda'r Synagogau Unedig wedi hynny. Roedd wedi cyhoeddi llyfr, *We Have Reason to Believe* (1957) lle dywedodd:

*Wnaeth y Torah ddim disgyn fel pecyn o'r nefoedd; perthynas barbaus ydyw gyda phobl Israel. Mae'n gynnyrch myfyrdod y naill genbedlaeth ar ôl y llall ar ystyr gair Duw.*

Roedd Jacobs ei hun yn meddwl fod y gred yma'n gwbl gydhnaws â'i safbwynt Uniongred, ond pan gafodd ei ddiarddel, sefydlodd Synagog Newydd Llundain, lle mae'n dal i fod yn rabbi. Dydy'r mudiad Masorti Prydeinig ddim wedi ordeinio menywod yn rabbiniaid hyd yma. Yn Synagog Newydd Llundain, mae dynion a menywod yn eistedd ar wahân, yn wahanol i'r arfer Ceidwadol. Ceidwadaeth heddiw yw'r grŵp mwyaf (23 y cant) o Iddewon yn America, ac mae ei Synagog Unedig yn cynnwys mwy nag 800 o gynulleidfaoedd.

## Iddewiaeth Ryddfrydol

Mae rhyw 25 y cant o Iddewon sy'n aelodau o synagog ym Mhrydain yn perthyn i fudiad sydd weithiau'n cael ei alw'n Iddewiaeth Flaengar. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y mudiad Diwygiedig, sy'n cynrychioli rhyw 17 y cant, ond hefyd Iddewon Rhyddfrydol, sef yr 8 y cant sy'n weddill. Daeth y mudiad Rhyddfrydol i fod ym 1902 fel cangen o'r mudiad Diwygiedig,

Breslau. Bu ymateb tebyg i Ddiwygiaeth radicalaidd yn UDA, a chafodd Athrofa Ddiwinyddol Iddewig America ei sefydlu ym 1886. Cafodd Solomon Schechter (1848-1915) ei benodi'n llywydd ym 1902. O dan ei arweiniad ef, ehangodd Iddewiaeth Geidwadol i gynnwys amrywiaeth barn draddodiadol eang. Gwrthododd gefnu ar halachah traddodiadol a'r llyfr gweddi neo-Uniongred. Oherwydd hynny, gallai'r athrofa hyfforddi rabbiniaid ar gyfer cynulleidfaoedd Uniongred a Cheidwadol.

## Cefnu ar Geidwadaeth

Ond newidiodd pethau pan ddechreuodd un o athrawon yr athrofa, Mordecai Kaplan, ymdrin â'r holl halachah fel pe bai'n ddim byd mwy na *minbag* ('arfer') a chyflwyno Iddewiaeth fel gwareiddiad crefyddol esblygol yn lle crefydd a gafodd ei datguddio'n oruwchnaturiol. Yn ei *Guide to Jewish Ritual*, mynnai Kaplan mai parhad yr Iddewon fel grŵp a'u mynegiant unigol ddylai reoli defod, yn hytrach na fel arall. Credai Kaplan yn gryf mewn cydraddoldeb rhywiol, a chreodd y seremoni *Bat Mitzvah* (gweler pennod 8). Rhwng 1945 a 1963, cafodd amryw o lyfrau gweddi eu cynhyrchu a oedd yn cael gwared o syniadau fel cenedl etholedig a Mescia personol. Dydy llyfr gweddi 1994 ddim yn cyfeirio at Dduw ond, yn hytrach, yr 'Un Trugarog', yr 'Anfeidiol' neu'r 'Tragwyddol'. Enw'r mudiad hwn yw Adferiadaeth ac mae'n debyg ei fod yn cynnwys 1-2 y cant o'r gymuned Iddewig yn UDA lle mae'n eithaf gweithgar, gyda chymdeithas o synagogau Adferiadol a choleg rabinaidd.

## Tyndra pellach o fewn Iddewiaeth Geidwadol

Yn wyneb y datblygiad yma, cynhyrchodd Iddewiaeth Geidwadol lyfr gweddi saboth a gŵyl ym 1946. Y testun sylfaenol o hyd oedd y fersiwn Hebraeg o Uniongrededd Ashkenazi fodern, ond roedd newidiadau pwysig yn rhai o'r gweddïau, fel y rhai sy'n galw am adfer aberthu yn y Deml a'r fendith wrywiad negyddol sy'n diolch i Dduw am 'beidio â'n gwneud yn un o'r Cenhedloedd... yn gaethwas... yn fenyw'. Wrth i'r mudiad fagu hyder yn gyffredinol, a hunaniaeth nad oedd yn Uniongred nac yn Ddiwygiedig, lluniodd ei ffurf ei hun o'r halachah, a adlewyrchir mewn dogfennau newydd ar gyfer seremonïau crefyddol fel priodas, a'r ffaith y caiff pobl yrru i'r synagog ar y saboth.

Doedd naill ai'r chwith na'r dde yn gwbl hapus â'r cyfuniad roedd

# 06

## y deddfau bwyd

ac mae'n llawer mwy radicalaidd. Mae'n debycach i fudiad Diwygiedig America ac asgell fwy radicalaidd mudiad Diwygiedig yr Almaen. (I wneud pethau'n fwy cymhleth, 'Rhyddfrydiaeth' yw'r enw ar gangen lai radicalaidd y mudiad Almaenaidd.) Tyfodd y mudiad yma, Undeb y Synagogau Rhyddfrydol a Blaengar (ULPS) o'r Undeb Crefyddol Iddewig a sefydlwyd gan Lily Montagu a Claude Montefiore ym 1902. Ym 1912, ychwanegwyd y geiriau 'er hyrwyddo Iddewiaeth Ryddfrydol' at deitl yr Undeb Crefyddol Iddewig. Roedd hyn i gyd yn gam oddi wrth y mudiad Diwygiedig.

Roedd yn well gan lyfr gweddi cyntaf y mudiad Rhyddfrydol ddefnyddio Saesneg na Hebraeg ac roedd yn mynegi agwedd bendant wrth-Seionaidd. Arweinydd ysbrydol y mudiad Rhyddfrydol Prydeinig rhwng y ddau ryfel byd oedd y Rabbi Dr Israel Mattuck. Erbyn 1956, roedd Synagogau Diwygiedig Prydain Fawr yn Llundain wedi sefydlu coleg i hyfforddi rabiniaid ac athrawon. O 1964 ymlaen, mae wedi cael ei noddi ar y cyd gan RSGB ac ULPS. Cafodd y coleg ei enwi ar ôl Leo Baeck (1873-1956), un o arweinwyr Iddewon yr Almaen a aeth i fyw yn Lloegr wedi'r Ail Ryfel Byd. Mae Iddewiaeth Ryddfrydol ei hun wedi cyfaddawdu, yn enwedig ar Seioniaeth, ond mae'n dal yn gwbl an-halachaidd, fel y gwelir, er enghraifft, yn ei barn fod person yn Iddew oherwydd bod un rhiant yn Iddew, nid dim ond y fam. Mae'n parhau i bwysleisio dyfodiad oes gyffredinol o heddwch yn hytrach nag Oes Feseianaidd Iddewig fwy penodolol. Mae pob un o'r 28 cynulleidfa sy'n perthyn i'r ULPS yn annibynnol ac o fewn pob cynulleidfa, mae Iddewiaeth Ryddfrydol yn argymhell mai penderfyniadau unigol sy'n cynnig y cyfle gorau i hyrwyddo, puro, cryfhau a diogelu Iddewiaeth yn y byd modern. Serch hynny, mae'n cynnig egwyddorion cyffredinol a rhaglen ymarferol y gall aelodau benderfynu eu derbyn, eu haddasu neu eu gwrthod. Gan mai dyma'r ymateb crefyddol Iddewig mwyaf modern a mwyaf radicalaidd i ryddfreiniaid, mae Iddewiaeth Ryddfrydol yn credu'n gryf iawn mewn cydraddoldeb, a gall ymfalchio mewn rhai rabiniaid benywaidd o fri, yn cynnwys yr awdur a'r darlledydd, Julia Neuberger.

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- pwrpas y deddfau bwyd
- am y rheolau sy'n pennu beth sy'n kosher
- sut mae pobl yn ufuddhau i'r deddfau bwyd.